

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD PN102 – Hysbysiad Preifatrwydd COVID 19 (Coronafeirws)

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) sydd mewn grym o 25ain Mai 2018.

Maes Gwasanaeth CBST:	Prif Weithredwr
Maes gwaith:	Hysbysiad Preifatrwydd Coronafeirws
Manylion Cyswllt	Alison Ward
Enw Hysbysiad Preifatrwydd:	PN102 - COVID 19 (Coronafeirws)

Rheolwr Data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:

Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut bydd Torfaen (fel Rheolwr Data) yn casglu, defnyddio a gwarchod data personol yn arbennig mewn perthynas â phandemig coronafeirws.

Mae'r Cyngor eisoes yn cadw data ar drigolion, cyflogeion a rhanddeiliaid. Ble mae gennym wybodaeth eisoes mewn perthynas â natur fregus unigolyn fel y diffinnir hynny yn y canllawiau presennol oddi wrth y Llywodraeth ac lechyd Cyhoeddus Cymru, efallai byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon at ddibenion cynllunio ar gyfer argyfwng neu i warchod eich buddion hanfodol trwy ei rhannu gyda gwasanaethau y tu fewn a thu allan i'r Cyngor.

Efallai y bydd angen i ni, yn ystod yr argyfwng presennol yma, ofyn i chi am ddata personol gan gynnwys data personol sensitif nad ydych eisoes wedi ei roi – er enghraifft, eich oedran neu os oes gennych unrhyw glefydau gwaelodol neu os ydych yn agored i niwed neu'n fregus. Mae hyn er mwyn i'r Cyngor eich helpu a blaenoriaethu'i wasanaethau.

Os oes gennym wybodaeth sy'n dangos eich bod yn fregus yn ystod y pandemig presennol, efallai y byddwn yn cysylltu â chi er mwyn sicrhau eich bod yn ddiogel a

rhoi cymorth i chi ble bynnag y bo hynny'n bosibl.

Gallwch weld prif Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth ar sut yr ydym yn casglu, defnyddio a gwarchod data personol yn gyffredinol, yn ogystal â'ch hawliau fel gwrthrych data.

Grwpiau Risg Uchel Covid-19

Mae data personol yn cael ei gasglu er mwyn asesu a rhoi cymorth i oedolion, plant a phobl ifanc sydd mewn categorïau risg uchel ac a fyddai'n cael eu hystyried yn bobl fregus pe baen nhw'n cael eu heintio â Choronafeirws.

Asesu a rhoi cymorth i staff

Mae data personol yn cael ei gasglu er mwyn i'r Cyngor adnabod unrhyw staff (neu'r rheiny sydd wedi eu cysylltu'n agos a staff/dibynyddion) sydd yn unrhyw un o'r categorïau risg uchel ac a fyddai'n cael eu hystyried yn bobl fregus pe baen nhw'n cael eu heintio â Choronafeirws.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol?

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu wedi ei rhoi i ni gennych chi yn uniongyrchol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Y seliau cyfreithiol sydd gennym ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth bersonol yw:

- GDPR Erthygl 6 (d) mae angen i ni warchod eich buddion hanfodol
- GDPR Erthygl 6 (e) mae ei hangen arnom ni i gyflawni tasg gyhoeddus

Pan fyddwn yn casglu data am eich iechyd, rydym yn dibynnu hefyd ar y seliau cyfreithiol canlynol:

- GDPR Erthygl 9 (2) (i) mae angen i ni ei gasglu ar gyfer iechyd cyhoeddus
- GDPR Erthygl 9 (2) (j) mae angen i ni ddadansoddi'ch gwybodaeth

Eich hawliau

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau, gan gynnwys:

- Hawl mynediad - Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol.

- Eich hawl i gael cywiriad – Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth yr ydych yn credu ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth yr ydych yn credu ei fod yn anghyflawn.
- Eich hawl i gyfyngu ar brosesu - Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu a'r brosesu'ch gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau.
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu - Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol mewn rhai amgylchiadau.
- Does dim gofyn i chi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau. Os gwnewch chi gais, mae gennym fis i ymateb i chi

Pwy i gysylltu â nhw os oes gennych bryderon ynglŷn â sut mae eich data'n cael ei brosesu

Gallwch gysylltu â Thîm Diogelu Data Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
E-bost: DPA@torfaen.gov.uk

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Ffôn 0303 123 1113